






# Cyfleoedd Partneriaeth ar gyfer Digwyddiadau yn 2026

joio enjoy
BaeAbertawe SwanseaBay

Cyngor Abertawe
Swansea Council

# Cynnwys


Tudalen

1 Cipolwg cyflym ar Abertawe

2-3 Cydweithio â ni

4 Manteision cydweithio â ni

5 Ein digwyddiadau

- 6 Croeso
- 7 Sioe Awyr Cymru
- 8 Sinema Awyr Agored
- 9 Theatr Awyr Agored
- 10 Amplitude
- 11 Gŵyl Jazz Ryngwladol Abertawe
- 12 Ras 10k Bae Abertawe
- 13 Ysbrydion yn y Ddinas
- 14 Tân Gwyllt
- 15 Gorymdaith y Nadolig

16 Cyfleoedd partneriaeth

17 Partneriaid digwyddiadau

18 Beth am gydweithredu?

# Cipolwg cyflym ar Abertawe



Mae PwC yn rhestru Abertawe ymysg y dinasoedd sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau yn y DU. Yn ôl y Sunday Times, mae Abertawe ymysg y lleoedd gorau i fyw.

**Yr ail ddinas fwyaf**
yng Nghymru

Buddsoddiad gwerth
**£1.3bn**
drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe

Mae mwy na **600,000** o bobl yn byw o fewn 30 munud mewn car i Abertawe ac mae dwy filiwn yn byw o fewn un awr mewn car

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, canol 2024

**7,290** o fusnesau

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, canol 2024

**Mwy na 29,000**
o bobl yn astudio yn Abertawe

Poblogaeth oedran gweithio (16-64 oed)
**158,300**

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol, canol 2024

**4.6miliwn o ymwelwyr**
y flwyddyn



joio Bae Abertawe enjoy Swansea Bay

croesobaeabertawe.com

Cyngor Abertawe Swansea Council

# Cydweithio â ni

## Daeth mwy na 500,000 o bobl i'n digwyddiadau allweddol yn 2025.

Mae cydweithio â Chyngor Abertawe ar ein digwyddiadau proffil uchel yn rhoi cryn sylw i fusnesau ymhlith ein cynulleidfaoedd.

Mae'r rhaglen ar gyfer 2026 yn cynnwys portffolio amrywiol, o gerddoriaeth, chwaraeon, digwyddiadau diwylliannol, digwyddiadau i deuluoedd a digwyddiadau cenedlaethol. Mae ein cynulleidfaoedd yn amrywio o 500 o bobl (Theatr Awyr Agored) i fwy na 200,000 o bobl (Sioe Awyr Cymru).

Mae gennym enw da ers amser maith am gynnal a chyflwyno digwyddiadau mawr arobryn fel Sioe Awyr Cymru, a enillodd wobr y digwyddiad gorau yng Ngwobrau Twristiaeth Bae Abertawe a Gwobrau Twristiaeth Rhanbarthol Croeso Cymru 2024, ac a gyrhaeddodd restr fer y digwyddiad gorau yng Ngwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru 2025.

Enwyd Gorymdaith y Nadolig Abertawe yn ddigwyddiad awdurdod lleol gorau'r flwyddyn yng ngwobrau 2025 yr NOEA (Cymdeithas Genedlaethol Digwyddiadau Awyr Agored).

Rydym yn croesawu partneriaethau drwy gymorth refeniw neu gymorth arall er mwyn sicrhau digwyddiadau deinamig a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.



Cliciwch yma i wylio fideo o'r digwyddiadau

# Cydweithio â ni

## Ystadegau allweddol 2025

- Daeth mwy na 500,000 o bobl i'n digwyddiadau allweddol.
- Ymwelwyd â thudalennau gwefan Joio Bae Abertawe 2.1 filiwn o weithiau.
- Cyrhaeddodd cyfryngau cymdeithasol Joio Bae Abertawe 8.7 miliwn o bobl.
- Cyrhaeddodd cyfryngau cymdeithasol Sioe Awyr Cymru 2.4m o bobl.
- Ymwelwyd â thudalennau gwefan Sioe Awyr Cymru 365,000 o weithiau.
- Ymwelwyd â thudalennau gwefan Ras 10k Bae Abertawe 192,200 o weithiau.
- Cyrhaeddodd cyfryngau cymdeithasol Ras 10k Bae Abertawe 792,000 o bobl.



# Manteision cydweithio â ni

Hyrwyddo eich cwmni.

Cysylltiad cadarnhaol â digwyddiadau arobryn o safon.

Cysylltu ac ymgysylltu â chynulleidfa fywiog.

Denu cwsmeriaid.

Cyrhaeddiad ac effaith – marchnata amlsianel.

Amlygu eich brand ac ymwybyddiaeth ohono.

Cyfleoedd pwrpasol i feithrin cysylltiadau â'r brand.

Enillion ar fuddsoddiad ac effaith fesuradwy.

Amlygu eich cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Cyfleoedd portffolio digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.



# Ein digwyddiadau

Mae ein calendr digwyddiadau yn 2026 yn cynnig cyfle cyffrous i gyrraedd cynulleidfa eang ac amrywiol ni waeth am eich nodau na'ch cyllideb wrth gefnogi digwyddiadau yn Abertawe.

**Croeso**
Dyddiad: **Chwefror/Mawrth**
Diwylliannol

**Sioe Awyr Cymru**
Dyddiad: **Gorffennaf**
Cenedlaethol/Hedfan

**Sinema Awyr Agored**
Dyddiad: **Gorffennaf**
Teuluoedd

**Theatr Awyr Agored**
Dyddiad: **Awst**
Diwylliannol

**Amplitude**
Dyddiad: **Awst**
Cerddoriaeth

**Gŵyl Jazz Ryngwladol Abertawe**
Dyddiad: **Medi**
Diwylliannol/Cerddoriaeth

**10k Bae Abertawe**
Dyddiad: **Medi**
Chwaraeon/Iechyd

**Ysbrydion yn y Ddinas**
Dyddiad: **Hydref**
Thema/Diwylliannol

**Tân Gwyllt**
Dyddiad: **Tachwedd**
Thema/Diwylliannol

**Gorymdaith y Nadolig**
Dyddiad: **Tachwedd**
Thema/Diwylliannol

# Croeso

Pryd: **28 Chwefror ac 1 Mawrth**

Ymwelwyr: **12,000+**

£ Pecynnau'r digwyddiad o £1,000 + TAW (ac eithrio comisiwn asiantaeth).




Croeso yw dathliad blaenllaw Abertawe o Ddydd Gŵyl Dewi a diwylliant Cymru, a gynhelir dros ddau ddiwrnod yng nghanol y ddinas.

Dyma ŵyl ddeinamig sy'n anrhydeddu treftadaeth Cymru yn ogystal ag amrywiaeth fodern Abertawe, gan ddod â chymunedau, ymwelwyr a busnesau ynghyd mewn digwyddiad diwylliannol bywiog.

Bydd y cyffro'n parhau gyda'r hwyr drwy Nightworks, rhaglen fywiog llawn bandiau Cymreig sy'n perfformio mewn tafarndai ledled y ddinas, gan sicrhau y bydd y dathliadau'n atseinio ddydd a nos.




- Stondinau bwyd a diod o Gymru.
- Arddangosiadau coginio gan enwogion a chogyddion lleol.
- Cerddoriaeth fyw.
- Adloniant ar y stryd.
- Gweithdai rhyngweithiol.
- Celf a chrefftau.
- Gorymdaith a llwybr Dydd Gŵyl Dewi.
- Gweithgareddau ac adloniant i blant.
- Nightworks - bandiau Cymreig yn dod â bywyd nos Abertawe'n fyw gyda'r hwyr.


**Cliciwch yma i wylio fideo o'r digwyddiad**

# Sioe Awyr Cymru

Pryd: **26-27 Gorffennaf**

Ymwelwyr: **200,000+**

£ Pecynnau'r digwyddiad o £2,000 + TAW (ac eithrio comisiwn asiantaeth).



Sioe Awyr CYMRU WALES Airshow

Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru '25 National Tourism Awards for Wales '25

Rownd Derfynol | Finalist





Sioe Awyr Cymru yw'r digwyddiad am ddim mwyaf yng Nghymru, sy'n denu cynulleidfaoedd enfawr i Fae Abertawe bob haf. Enillodd wobr y digwyddiad gorau yng Ngwobrau Twristiaeth Bae Abertawe a Gwobrau Twristiaeth Rhanbarthol Croeso Cymru 2024, a chyrhaeddodd restr fer y digwyddiad gorau yng Ngwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru 2025.

Dros ddau ddiwrnod, amffitheatr naturiol y bae yw'r llwyfan wrth i rai o beilotiaid ac awyrennau gorau'r byd gyflwyno acrobateg awyr syfrdanol. O jetiau cyflym i hofrenyddion i dîm eiconig y Red Arrows, dyma sioe hedfan na ddylid ei cholli.

Yn 2025, roedd ôl troed digidol y digwyddiad yn eithriadol. Ymwelwyd â thudalennau'r wefan swyddogol fwy na 365,000 o weithiau a chyrhaeddodd 2.5 miliwn o bobl drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan danlinellu ei boblogrwydd a'i bŵer hyrwyddo.

- Arddangosiadau awyr.
- Arddangosiadau ar y tir.
- Reidiau rhithwir.
- Pentref milwrol.
- Parth moduron.
- Mwy nag 80 o stondinau masnach.
- Man lletygarwch o'r radd flaenaf.
- Stondinau bwyd a diod.
- Adloniant.
- Cerddoriaeth.
- Ffeiriau hwyl.

**Cliciwch yma i wylio fideo o'r digwyddiad**

# Sinema Awyr Agored

Pryd: **Gorffennaf**

Ymwelwyr: **800**

Prif becyn y digwyddiad £3,150 + TAW (ac eithrio comisiwn asiantaeth).




Cewch gyfle i fwynhau ffilmiau o fri wrth i'r Cae Lacrosse ym Mharc Singleton gael ei drawsnewid yn sinema awyr agored syfrdanol.

Ar draws dwy noson arbennig, bydd cynulleidfaoedd yn mwynhau cyffro gwylio dwy ffilm anhygoel o dan y sêr, gan greu profiad gwirioneddol unigryw a bythgofiadwy.

Mae'r digwyddiad hwn yn cyfuno harddwch parcdir Abertawe â chyffro adloniant ar sgrîn fawr, gan gynnig cyfle i deuluoedd, ffrindiau a phobl sy'n dwlu ar ffilmiau rannu amser cofiadwy gyda'i gilydd mewn lleoliad nodedig.

# Theatr Awyr Agored

Pryd: **25 a 26 Awst**

Ymwelwyr: **1,000**

£ Prif becyn y digwyddiad £3,150 + TAW (ac eithrio comisiwn asiantaeth)



Mae Castell Ystumllwynarth yn cynnig cefndir hanesyddol ysblennydd ar gyfer theatr awyr agored blynyddol Cyngor Abertawe, gan greu profiad diwylliannol gwirioneddol unigryw a bythgofiadwy. Gwahoddir cynulleidfaoedd i fwynhau dau berfformiad cyfareddol yn y lleoliad anhygoel hwn:

- As You Like It – comedi fytholwyrdd William Shakespeare o dan y sêr.
- Pinocchio gan Carlo Collodi – cynhyrchiad hudolus wedi'i deilwra i gynulleidfaoedd iau a'u teuluoedd.

Ni fyddai unrhyw ymweliad â theatr awyr agored Castell Ystumllwynarth yn gyflawn heb bicnic cyn y sioe ar dir y castell. Anogir ymwelwyr i ddod â blanced, rhai byrbrydau a'u hoff bobl, gan fwynhau'r awyrgylch wrth i'r cyffro gynyddu cyn y perfformiad gyda'r hwyr.

**Cliciwch yma i wylio fideo o'r digwyddiad**

# Amplitude

Pryd: **Awst**

Ymwelwyr: **3,000+**

£ Prif becyn y digwyddiad £3,150 + TAW (ac eithrio comisiwn asiantaeth).




Cynhelir Amplitude yn lleoliad hynod boblogaidd Amffitheatr Abertawe gyferbyn â'r LC, sydd wedi cael ei hailwampio'n ddiweddar.

Mae'r digwyddiad am ddim hwn yn talu teyrnged i gerddoriaeth llawr gwlad fywiog Abertawe a'i nod yw dathlu sŵn amrywiol Abertawe a'r bobl anhygoel o dalentog sydd yma.

Bu mwy na 3,000 o bobl yn bresennol yn y digwyddiad hwn dros ddeuddydd yn 2025, sef dwbl maint y gynulleidfa yn 2024.

Roedd bwlch oedran o 50 mlynedd rhwng y perfformwyr ieuaf a hynaf y llynedd, gan brofi unwaith eto fod cerddoriaeth yn ein cysylltu mewn ffyrdd unigryw.

Edrychwn ymlaen at groesawu hyd yn oed mwy o gerddorion a phobl sy'n dwlu ar gerddoriaeth i ymuno â ni yn 2026!

**Cliciwch yma i wylio fideo o'r digwyddiad**

# Gŵyl Jazz Ryngwladol Abertawe

Pryd: **4 – 6 Medi**

Ymwelwyr: **7,000**

£ Prif becyn y digwyddiad £8,000 + TAW (ac eithrio comisiwn asiantaeth).




Mae Gŵyl Jazz Ryngwladol Abertawe'n ddathliad tri diwrnod o bob math o jazz, sy'n dod â rhai o'r artistiaid a'r bandiau lleol a rhyngwladol gorau at ei gilydd. Gan ddenu cynulleidfaoedd o Abertawe a'r tu hwnt, mae'r ŵyl yn un o uchafbwyntiau calendr diwylliannol y ddinas ac yn llwyfan i arddangos rhagoriaeth gerddorol.

Mae'r ŵyl, sydd yn ei 13eg flwyddyn bellach, wedi'i gwreiddio'n gadarn fel rhan o dreftadaeth Abertawe, gan gyfuno traddodiad ag arloesedd i ddenu pobl sydd wedi dwlu ar jazz ers amser maith a chynulleidfaoedd newydd.

Yn ystod y digwyddiad y llynedd, bu:

- 12 o gyngherddau roedd angen tocynnau ar eu cyfer yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe.
- 35 o ddigwyddiadau AM DDIM ar draws 12 o leoliadau yn Ardal Forol Abertawe.
- Mwy na 300 o gerddorion!

**Cliciwch yma i wylio fideo o'r digwyddiad**

# Ras 10k Bae Abertawe

Pryd: **20 Medi**

Ymwelwyr: **5,000 o redwyr, mwy na 12,000 o wylwyr**

£ Ceir pecyn y digwyddiad ar gais




Bydd Ras 10k Bae Abertawe'n dychwelyd ym mis Medi am ei 45ain flwyddyn. Fe'i cynhelir ar hyd glannau hardd ac eiconig Bae Abertawe.

Mae Runner's World wedi cydnabod ei bod ymysg rasys 10k gorau'r DU ac mae bellach yn boblogaidd iawn ymhlith rhedwyr o bob gallu – o athletwyr elît i'r rhai hynny sy'n cyfranogi am y tro cyntaf.

- Pum ras – ras 10k, ras 3k, ras 1k, ras cadair olwyn a'r ras elusennol hwyl i fasgotiaid.
- Yn agored i bobl o bob gallu – gan groesawu rhedwyr proffesiynol, profiadol a newydd.
- Cymerodd 90 o glybiau rhedeg o bob cwr o'r DU ran yn 2025, gan ddangos atyniad cenedlaethol y ras.
- Cyrhaeddiad digidol – ymwelwyd â thudalennau'r wefan 205,904 o weithiau yn 2025.

**Cliciwch yma i wylio fideo o'r digwyddiad**

# Ysbrydion yn y Ddinas

Pryd: **Hydref**

Ymwelwyr: **5,000+**

£ Pecynnau'r digwyddiad o £1,000 + TAW (ac eithrio comisiwn asiantaeth).




Bob hydref, mae Abertawe'n cael ei thrawsnewid yn ddinas llawn ias a chyffro bythgofiadwy i'r teulu yn ystod Ysbrydion yn y Ddinas – ein dathliad Calan Gaeaf blaenllaw AM DDIM sydd wedi cael ei uwchraddio mewn modd arswydus yn ddiweddar! Mae awyrgylch bywiog y digwyddiad yn denu pobl o bob oedran.

- Adloniant sy'n addas i'r teulu.
- Cerddoriaeth.
- Cymeriadau ar grwydr.
- Angenfilod chwyddadwy sy'n denu'r sylw.
- Llwybrau arswydus.
- Cystadlaethau gwisg ffansi.

Cliciwch yma i wylio fideo o'r digwyddiad

# Tân Gwyllt

Pryd: **5 Tachwedd**

Ymwelwyr: **10,000**

£ Prif becyn y digwyddiad £8,000 + TAW (ac eithrio comisiwn asiantaeth).



Bob blwyddyn, mae Cyngor Abertawe'n goleuo awyr y ddinas gyda'r hwyr drwy ei arddangosiad tân gwyllt blynyddol nodedig. Dyma draddodiad poblogaidd iawn sy'n dod â chynulleidfa deuluol enfawr at ei gilydd.

Ceir awyrgylch bywiog, sy'n creu un o'r nosweithiau mwyaf cofiadwy yng nghalendr y ddinas.

- Pyrodechnegau gwefreiddiol i gyfeiliant cerddoriaeth.
- Adloniant llwyfan.
- Stondinau bwyd a diod.
- Cymeriadau ar grwydr.

**Cliciwch yma i wylio fideo o'r digwyddiad**

# Gorymdaith y Nadolig

Pryd: **22 Tachwedd**

Ymwelwyr: **30,000+**

£ Prif becyn y digwyddiad £8,000 + TAW (ac eithrio comisiwn asiantaeth).



Enwyd Gorymdaith y Nadolig Abertawe'n ddigwyddiad awdurdod lleol gorau'r flwyddyn yng ngwobrau 2025 yr NOEA (Cymdeithas Genedlaethol Digwyddiadau Awyr Agored).

Dyma un o'r digwyddiadau mwyaf yng nghalendr Abertawe bellach, gan ddenu miloedd o deuluoedd ac ymwelwyr i ganol y ddinas bob blwyddyn. Dyma'r orymdaith Nadolig fwyaf yng Nghymru ac mae'n un o'r gorymdeithiau mwyaf yn y DU.

Yn ogystal ag adloniant llwyfan, tân gwyllt ac, wrth gwrs, Siôn Corn, sy'n arwain yr orymdaith ac yn troi goleuadau Nadolig Abertawe ymlaen, mae'r orymdaith nodedig hon yn cynnwys mwy na 90 o actau, gan greu cymysgedd bywiog o'r canlynol:

- Grwpiau cymunedol lleol.
- Dawnswyr.
- Bandiau.
- Corau.
- Fflotiau.
- Offer chwyddadwy.
- Cymeriadau sy'n goleuo.
- Tywysogesau, cymeriadau cartŵn ac archarwyr.

Cliciwch yma i wylio fideo o'r digwyddiad

# Cyfleoedd partneriaeth

## Cymryd rhan yn ein digwyddiadau

Dyma ambell ffordd o gydweithio â ni yn ystod rhai o'n digwyddiadau:

- Prif Bartner.
- Partner Teithio.
- Partner Wi-Fi.
- Partner Cynaliadwyedd.
- Partner Llwyfan.
- Partner Asedau Awyr.
- Partner Digidol.
- Partner Lletygarwch.
- Llwyfannu byw.
- Partner Parth (celf a chrefftau/ gweithgareddau STEM/ moduron).
- Adloniant i blant (diddanwyr unigol, neu becyn cyfan).
- Adloniant stryd.
- Pebyll mawr.
- Fflotiau.
- Mentrau ymgysylltu â'r gymuned.
- Cydweithredu i gyflwyno pethau ar sgrîn/bandiau.

### Rydym yn hyblyg wrth weithio gyda chi.

Lluniwyd ein cyfleoedd partneriaeth i fod yn hyblyg wrth fodloni gofynion eich busnes. Mae'r prisiau'n amrywio o £1,000 i £30,000 + TAW.

**Byddwn yn gweithio gyda chi i'ch helpu i gyflawni eich amcanion a rhagori arnynt.**

## Marchnata digwyddiadau

Gan ddibynnu ar werth y pecyn y cytunwyd arno a'r digwyddiad, gallai eich busnes achub ar y cyfleoedd canlynol:

- Brandio ar wefan digwyddiad a deunydd marchnata.
- Cyhoeddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Cynnwys a fideos pwrpasol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.
- Brandio ar sgriniau digidol.
- Brandio ar hysbysfyrddau.
- Brandio ar faneri pontydd.
- Brandio ardal ddirprwyedig.
- Brandio ar lwyfan.
- Datganiadau i'r wasg/e-gylchlythyrau.
- Haen allanol Arena Swansea Building Society.
- Cyhoeddiadau dros systemau sain a chyhoeddiadau 'diolch'.
- Tocynnau VIP.
- Cyfleoedd i ymgysylltu â staff.
- Cyfleoedd i ymgysylltu â chynulleidfa.
- Stondin fasnach  digwyddiad.

# Partneriaid digwyddiadau

Dyma rai o'r brandiau sydd wedi cydweithio â ni yn ystod ein digwyddiadau.

Specsavers Swansea Mumbles

Shircar Welsh Butter

Swansea University Prifysgol Abertawe

The Secret Beach Bar & Kitchen

DS Automobiles

FRF Motors

Lidl

GWR Great Western Railway

cardiff airport maes awyr caerdydd

holidaycottages.co.uk

Princes Gate

virgin atlantic

first bus

Days Rental Driving British Business Since 1926

Travel House

Admiral

Sinclair Group

RBL Royal British Legion

FRF Volvo

# Beth am gydweithredu?

Gadewch i ni greu digwyddiadau bythgofiadwy gyda'n gilydd a rhoi rheswm i'ch cynulleidfa eich cofio!

Os hoffech i'ch busnes gydweithio â Chyngor Abertawe ar unrhyw un o'n digwyddiadau a chael rhagor o wybodaeth am y cyfleoedd noddi sydd ar gael neu drafod pecynnau wedi'u teilwra, a wnewch chi gysylltu â:


## Zena Laws

Swyddog Nawdd a Masnachol

zena.laws@abertawe.gov.uk

07813 579290